**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD MERCHER, 20 TACHWEDD 2019**

**IS-BWYLLGOR (CYLLID) Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: C.Clement-Williams a/ac D.Jones

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

H.Jenkins, K.Jones, H.Jones a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd C Clement-Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEDDF Y DEGWM CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Rhoi cymorth grant gwerth £1,000 i'r Groes Goch Brydeinig ar gyfer caffaeliadau cadeiriau olwyn i gefnogi pobl mewn argyfwng ar draws Castell-nedd Port Talbot.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

3. **CEISIADAU I'R GRONFA GRANTIAU AMRYWIOL**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 y flwyddyn i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles y lawnt fowlio ar Heol Gwilym Cwmllynfell ar gyfer Clwb Bowls Cwmllynfell a'r Rhanbarth, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

2. Cymeradwyo cymorth grant gwerth £200 y flwyddyn i'w ddefnyddio i dalu swm rhent prydles y lawnt fowlio ym Mharc Hamdden Blaengwynfi ar gyfer Clwb Bowls Gwynfi, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rent.

3. Rhoi cymorth grant gwerth £500 i'r Groes Goch Brydeinig i gefnogi pobl mewn argyfwng ar draws Castell-nedd Port Talbot.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5. **DILEU TRETH Y CYNGOR**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo dileu dyledion Treth y Cyngor ar gyfer y symiau a ddisgrifir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Nid oes modd adfer cyfrifon Treth y Cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 6. DILEU DYLEDION MÂN DDYLEDWYR

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo dileu dyledion y mân ddyledwyr ar gyfer y symiau a ddisgrifir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Nid oes modd adfer y symiau sy'n ddyledus.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**